

RHAGLEN WAITH Y PWYLLGORAU CRAFFU **Pwyllgor Craffu ar faterion lechyd a Lles**

Dwyn yr Adain Weithredol a'r Cyngor i gyfrif mewn perthynas â phob un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor

Mae pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun a chytuno arni, drwy nodi rhestr o themâu a phynciau sy'n berthnasol i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Craffu. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu, caiff rhaglen ymarferol a realistig ei hamserlennu ei datblygu.

Dylai blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu roi rhesymeg eglur ynglŷn â pham y mae materion penodol wedi'u dewis. Dylen nhw ganolbwyntio ar ganlyniadau a sicrhau bod y dull craffu sydd wedi'i ddewis yn gweddu i'r pwnc a'r canlyniadau y gobeithir amdanyn nhw. Dylen nhw hefyd alinio rhaglenni craffu gyda threfniadau rheoli cyflawniad, hunan asesu a gwelliant y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ffyrdd y mae modd cynnwys materion ychwanegol yn y Rhaglen Waith Craffu, ac mae modd i syniadau i'w cynnwys ddod o nifer o ffynonellau, fel:-

- Cynghorwyr unigol;
- Gwybodaeth monitro cyflawniad neu gyllideb;
- Adroddiadau arolygu;
- Atgyfeiriadau gan y Cyngor (fel Rhybuddion o Gynnig), y Cabinet/y Pwyllgor Archwilio neu bwyllgorau craffu eraill;
- Defnyddwyr y Gwasanaeth;
- Monitro gweithrediad argymhellion sydd wedi'u gwneud gan y pwyllgor yn flaenorol; a
- Trigolion lleol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cabinet lunio blaenraglenni gwaith, ac mae'r Pwyllgor lechyd a Lles yn cadw golwg ar eitemau neu bynciau sydd ar ddod a fydd o bosibl yn galluogi'r pwyllgorau craffu i chwarae rhan yng ngwaith datblygu polisi ar ran y Cyngor, cyn iddo gael ei ystyried yn ffurfiol gan y Cabinet. Mae'n bwysig cofio bod elfen o hyblygrwydd i bob rhaglen waith unigol sy'n rhoi'r gallu i Bwyllgorau graffu ar faterion newydd/brys sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

Dyddiad/Amser	Nod cyffredinol	Swyddog	Aelod o'r Cabinet	Craffu yn canolbwyntio ar...
19 Gorffennaf 2021	<ul style="list-style-type: none"> <i>Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles (Drafft)</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu 	<p>Y Cynghorydd R Lewis Y Cynghorydd G Hopkins: Y Cynghorydd A Crimmings</p>	Craffu a Her – I'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles gytuno ar ei Raglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/2022
19 Gorffennaf 2021	<ul style="list-style-type: none"> <i>Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol</i> 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant 		Trafod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
19 Gorffennaf 2021	LLYTHYR AGC YNGHYLCH Y GWIRIADAU SICRWYDD DIWEDDAR	Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant		Derbyn y llythyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â'r arolygiad diweddar. A derbyn y cynllun gweithredu yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles ym mis Medi.
20 Medi 2021	Cydnherthedd y Gymuned	Cyfarwyddwr, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned		Craffu a Herio – Aelodau i gael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth ar ddarparu Model y rhwydwaith cymunedol a'r rhwydwaith cymdogaeth
20 Medi 2021	Datblygiadau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau		Trafod yr adroddiad terfynol

		Cymuned a Gwasanaethau i Blant		
20 Medi 2021	Trawsnewid Arlwy'r Gwasanaethau Oriau Dydd o ran Anableddau Dysgu	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion		Craffu a Her – Cyfle i'r Aelodau gymryd rhan mewn cyd-lunio strategaeth a model gwasanaeth newydd.
22 Tachwedd 2021	Strategaeth Tymor Canolig y Gwasanaethau Hamdden	Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned Aelod Cabinet, y Cynghorydd R Lewis		Rhoi cyfle i'r Aelodau gyfrannu at ddatblygiad y strategaeth iechyd a lles tymor canolig nesaf ar gyfer y gwasanaethau hamdden.
22 Tachwedd 2021	Adroddiad Digartrefedd	Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned		Craffu a Her Aelodau i drafod y strategaeth ddigartrefedd, gan gynnwys darparu llety dros dro a llety â chymorth
14 Chwefror 2022	ADRODDIAD GRWP GWEITHIO			

14 Chwefror 2022	Adolygiad o'r Siarter MND	Gwahodd Aelod o grŵp MND De Cymru i roi diweddariad i'r Aelodau ar waith y sefydliad		Aelodau i barhau i Fonitro'r Siarter a Fabwysiadwyd

Iechyd a Lles - Materion Parhaus i'w Hadolygu yn y Dyfodol: -

Gorffennaf 2021 i geisio Aelodaeth o'r Gweithgor mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig ynghylch Awtistiaeth

Adroddiadau Blynyddol

**ADRODDIAD GWYBODAETH - Adroddiad Cwyn a Chanmoliaeth Blynyddol
Adroddiad Cynnydd o Ansawdd Aer
Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Cwm Taf**

CYNLLUN GWASGARU CEISWYR LLOCHES

CYDNERTHEDD O RAN BWYD

